# Paratoi llety dan do ar gyfer anfeiliaid fferm

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi llety dan do ar gyfer anifeiliaid fferm. Mae hyn yn cynnwys paratoi'r llety a sefydlu'r holl offer yn barod i gael ei ddefnyddio gan anifeiliaid fferm.

Wrth weithio gydag anifeiliaid fferm neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad cyfredol, lle bo angen.

Wrth wneud eich gwaith mae'n rhaid i chi ystyried yr effaith y bydd yn ei gael ar yr amgylchedd.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd yn paratoi llety dan do ar gyfer anifeiliaid fferm.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd i'w gyflawni
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. dewis, paratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio'r offer a'r deunyddiau gofynnol, yn ddiogel ac yn gywir
4. gwneud y gwaith o lanhau llety'r anifeiliaid fferm, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gofynion cyfreithiol perthnasol, mewn ffordd sydd yn cynnal eich iechyd a'ch diogelwch ac iechyd a llesiant yr anifeiliaid fferm
5. paratoi'r llety dan do ar gyfer cyflwyno anifeiliaid fferm yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. gwirio a chadarnhau bod y llety yn ddiogel, yn gadarn ac yn rhydd rhag peryglon, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gofynion iechyd a llesiant anifeiliaid perthnasol
7. gwirio a chadarnhau bod y gosodiadau wedi eu haddasu, eu hail-lenwi neu eu hadnewyddu a'u bod mewn cyflwr addas ar gyfer cyflwyno anifeiliaid fferm
8. darparu deunyddiau llety yn unol â'r cyfarwyddiadau
9. sicrhau a chadarnhau bod amodau amgylcheddol yn addas ar gyfer cyflwyno anifeiliaid fferm
10. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
11. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol ag arferion busnes
12. prosesu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol ac arferion busnes
13. gwneud yr holl waith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, deddfwriaeth iechyd a llesiant anifeiliaid, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes
14. cwblhau cofnodion fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol a'r busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. y mathau o offer a deunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer paratoi llety dan do ar gyfer anifeiliaid fferm a sut i baratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio'r rhain yn ddiogel ac yn gywir
4. mathau a maint y llety sydd yn addas ar gyfer anifeiliaid fferm sy'n cael eu cadw a sut bydd y rhain yn amrywio ar gyfnodau gwahanol o'r cylch cynhyrchu
5. yr arferion glanhau ar gyfer llety anifeiliaid fferm sydd yn briodol i'r rhywogaethau perthnasol a'r math o lety
6. sut gall dulliau a deunyddiau glanhau gwahanol effeithio ar eich iechyd a'ch diogelwch ac iechyd a llesiant yr anifeiliaid fferm, a sut i leihau'r effeithiau niweidiol posibl
7. y peryglon posibl a allai ddigwydd yn llety anifeiliaid fferm a sut y gellir lleihau'r rhain
8. gofynion iechyd a llesiant anifeiliaid fferm a sut i'w hybu
9. pwysigrwydd sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir yn llety anifeiliaid fferm yn rhydd rhag halogiad
10. yr amodau amgylcheddol sy'n ofynnol yn y llety er mwyn cynnal iechyd a llesiant yr anifeiliaid fferm sy'n cael eu cadw
11. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda’r rheiny sydd yn gysylltiedig â’ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
12. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
13. sut i drin, storio, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol ac arferion busnes
14. eich cyfrifoldebau o ran llesiant anifeiliaid fferm yn unol â deddfwriaeth iechyd a llesiant anifeiliaid perthnasol, codau ymarfer a pholisïau busnes
15. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau busnes
16. y cofnodion y mae angen eu cadw a phwysigrwydd eu cwblhau

## Geirfa

**Cyfarwyddiadau:** llafar neu ysgrifenedig

LANLP6

Paratoi llety dan do ar gyfer anfeiliaid fferm

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANLP6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Gweithiwr Fferm Cyffredinol, Gweithiwr Fferm Dofednod, Gweithiwr Fferm Foch |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu Anifeiliaid Fferm |
| **Geiriau Allweddol** | llety; gwellt gwely; anifail; anifeiliaid fferm; sied; ysgubor; lloc |